Y GÊM GWEITHDY

Trafodaethau o amgylch y bwrdd yn edrych ar broblemau a dewisiadau pobl fel John ac Ann. Roedd y sesiwn gweithdy yn defnyddio fformat gêm fel ffordd o ganolbwyntio'r drafodaeth o amgylch y bwrdd a'r gwaith partneriaeth ar yr opsiynau sydd ar gael i berson sy'n dioddef trosedd casineb homoffobaidd. Nod y gêm o gydweithio oedd cynorthwyo'r datblygiad o fod yn 'ddioddefwr' i fod yn 'fuddugwr' a dealltwriaeth wrth daclo troseddau casineb homoffobaidd.

Roedd pob bwrdd yn cynnwys 8/9 o bobl o wahanol gefndiroedd hy: o'r heddlu, Gwasanaeth Erlyn y Goron neu fudiad diogelwch cymunedol yn ogystal â phobl oedd yn medru lleisio materion ar ran bobl LHD. Hwyluswyd y gêm gan staff ac aelodau Cyngor Stonewall Cymru ac ar bob bwrdd roedd cynrychiolydd y dioddefwr yn darllen am ddigwyddiad gwahanol o drosedd casineb homoffobaidd a oedd wedi digwydd i Bob neu Trish. Roedd yn rhaid i bawb gydweithio i annog a chynorthwyo cynrychiolydd y dioddefwr i symud drwy'r camau Adrodd, Cyhuddo ac Erlyn hyd at y Clo. Defnyddiodd cynrychiolydd y dioddefwr Fatrics Penderfyniadau fel cymorth i benderfynu a oedd y 'dioddefwr' yn barod i symud ymlaen drwy bob cam. Gellid symud ymlaen i'r cam nesaf os oedd sgôr Matrics Penderfyniadau'r dioddefwr yn ddigon uchel, a bod mwyafrif aelodau'r bwrdd yn cytuno bod digon o ddiddordeb cyhoeddus neu dystiolaeth i barhau. Os oedd sgôr y Matrics Penderfyniadau yn rhy isel byddai'n rhaid i aelodau'r bwrdd benderfynu pa newidiadau oedd eu hangen i godi'r sgôr.

Straeon cynrychiolwyr y dioddefwr ac adroddiadau'r hwyluswyr bwrdd

Bwrdd C Trish 1

*Roedd Trish mewn clwb nos adnabyddus am fod yn hoyw-gyfeillgar yn Aberystwyth. Roedd yn cydio yn llaw ei chariad, Annie, pan ddaeth dyn atynt a'u galw'n 'disgusting, f*****g lesbians' a geiriau sarhaus eraill. Llwyddodd Trish ac Annie i symud i ran arall o'r clwb, oddi wrth y dyn. Ar ddiwedd y noson gadawodd Trish ac Annie y clwb, ond y tu allan ymosodwyd ar Trish gan y dyn a ymosododd ar lafar arni. Tarwyd Trish i'r llawr a'i chicio.*

Sylwadau'r Hwylusydd ar y gweithdy: Dyma'r sesiwn orau i mi ei hwyluso mewn cynhadledd Stonewall Cymru. Roedd y drafodaeth am anhawster derbyn cefnogaeth addas i oed/rhywioldeb y "dioddefwr", a'r mater bod angen esbonio'n glir a oedd y broblem yn ddigwyddiad neu drosedd, fel y gall y "dioddefwr" gael gwybodaeth i asesu p'run ai fyddai ganddynt yr amser a'r egni i ddilyn y mater.

Awgrymwyd y dylid cynhyrchu taflenni gydag esboniadau syml, clir y gellid eu deall gan unrhyw un, o berson yn ei arddegau i bensiynwr, a fyddai ar gael yn rhad ac yn rhwydd.

Bwrdd D Trish 2

*Roedd Trish mewn clwb nos adnabyddus am fod yn hoyw-gyfeillgar yn Aberystwyth. Roedd yn cydio yn llaw ei chariad, Annie, pan ddaeth dyn atynt a'u galw'n 'disgusting, f*****g lesbians' a geiriau sarhaus eraill. Llwyddodd Trish ac Annie i symud i ran arall o'r clwb, oddi wrth y dyn. Ar ddiwedd y noson gadawodd Trish ac Annie y clwb, ond y tu allan ymosodwyd ar Trish gan y dyn a ymosododd ar lafar arni . Tarwyd Trish i'r llawr a'i chicio. Mae Annie yn briod, ac nid yw wedi dweud wrth ei gŵr ei bod yn bwriadu ei adael er mwyn symud at Trish.*

Sylwadau'r Hwylusydd: Ni lwyddodd y bwrdd i fynd yn bell iawn drwy'r 'gêm' gan nad oedd y dioddefwr eisiau gwneud cwyn, ond roedd dulliau gweithredu'r heddlu'n ddefnyddiol iawn, a dywedwyd yn glir ac yn gadarnhaol bod angen sicrhau bod y troseddau yn cael sylw'r cyhoedd. Nid oedd unrhyw bwyntiau dadleuol. Yr hyn oedd yn ddefnyddiol iawn oedd cael pobl wrth y bwrdd a oedd yn medru ateb y cwestiynau. Roeddem yn ffodus iawn i gael cyn swyddog heddlu gwybodus iawn ar ein bwrdd, sydd

bellach yn gynrychiolydd Cymorth i Dystion. Roedd yn wybodus a chynhwysol, gan sicrhau proses lefn.

Nid oedd unrhyw un o'r gymuned LHD wrth y bwrdd yn gwybod bod modd i chi gysylltu gyda Cymorth i Ddioddefwyr heb fod at yr heddlu er mwyn gwneud cwyn am drosedd. Roedd hyn o gymorth arbennig i'r dioddefwr, ac yn wybodaeth ddefnyddiol yn gyffredinol. Nid oedd y bobl LHD yn gwybod am y drefn o wneud cwyn am ddigwyddiad LHD o gwbl. O'r ffaith bod modd cwyno am ymosodiad llafar homoffobaidd i'r materion ynglŷn â bod yn ddienw a heddlua cyffredinol. Roedd hefyd yn ddefnyddiol i bobl LHD ddeall bod gwneud cwyn am bob enghraifft o gam-drin yn cynorthwyo'r heddlu i nodi ardaloedd â 'phroblem' a chymryd camau i amddiffyn y gymuned yn well.

Er cydnabod bod y Partneriaethau Diogelwch Cymunedol yn gwneud gwaith da, teimlwyd y gellid cael mwy o gydweithio, yn benodol o amgylch troseddau casineb homoffobaidd. Teimlwyd y gellid ei enwi yn fwy aml mewn polisi awdurdodau lleol. Gall tynnu sylw at y ffaith bod cam-drin ar lafar yn drosedd gael effaith ar ddigwyddiadau dilynol a theimlad y bobl LHD, a'u hysgogi i wneud adroddiadau yn amlach. Wrth ein bwrdd, cytunodd yr Heddlu, Cymorth i Dystion a'r grŵp Enfys i gyd i gwrdd eto ar ôl y Gynhadledd i sicrhau agwedd mwy hyddysg a chyflawn.

Bwrdd F Trish 4
*Mae Trish ac Annie yn byw yn Abertawe gyda 3 o blant Annie. Maent yn ganolbwynt camdriniaeth gan lanciau lleol, sy'n gweiddi lesbiad ayyb atynt. Mae pethau'n cael eu taflu at y tŷ yn gyson, peli eira, wyau ayyb. Un noson roeddent yn gwylio'r teledu, pan chwalwyd y ffenest gan garreg. Aeth Trish allan a gweld llanc yn ei gardd, mae'n gweiddi 'you f*****g lesbians' ac yn rhedeg i ffwrdd.*

Sylwadau'r Hwylusydd: Mynegodd cynrychiolydd y dioddefwr yn y grŵp, ar gamau amrywiol o'r drafodaeth, bryder am yr oblygiadau pe byddent yn parhau â'r mater gyda'r Heddlu. Roeddent yn ystyried a fyddai gweithred o'r fath yn cynyddu'r camdriniaeth drwy dynnu casineb aelodau eraill o'r gymuned a chynyddu eu teimlad o fod yn ynysig ac yn agored. Hefyd, ar ddiwedd unrhyw ymchwiliad Heddlu neu gamau cyfreithiol, roeddent yn holi a fyddai unrhyw gefnogaeth leol ar gael iddynt er mwyn eu cynorthwyo i herio eu teimladau o fod yn fregus.

Rhannodd aelodau ifanc o'r grŵp brofiad personol o nifer o wahanol achosion o gamdriniaeth ac aflonyddu homoffobaidd. Siaradwyd yn huawdl am y gefnogaeth dda a gafwyd gan yr Heddlu a pha mor rhagweithiol y bu swyddogion unigol o'r heddlu wrth sicrhau bod lefelau cefnogaeth a gwyliadwriaeth yn cael eu cynnal yn dilyn y cwynion a'r camau cyfreithiol a oedd yn dilyn. O achos hyn penderfynodd y 'dioddefwr' yn y grŵp barhau gyda'r adroddiad am y drosedd casineb. Nid aeth y grŵp tu hwnt i'r pwynt hwn yn y broses o achos cyfyngiadau amser.

Yn anffodus, yn sgil absenoldeb neu'r ffaith bod rhai o'r cynadleddwyr wedi gadael yn gynnar, ni chafwyd cynrychiolaeth gan Wasanaeth Erlyn y Goron, Cymorth i Ddioddefwyr na'r Heddlu (hyd at y pum munud olaf). Ond cafwyd crynodeb gan gynrychiolydd Heddlu De Cymru o'r llwybrau y medrai'r Heddlu eu dilyn ar ôl derbyn adroddiad am drosedd/au casineb. Yn dibynnu ar yr amgylchiadau penodol a'r ffaith a oedd rhain yn droseddau parhaus, roedd yr opsiynau yn cynnwys: rhybuddio'r troseddwyr ifanc, ymweliadau gan yr heddlu i'w cartrefi a'u hysgolion, cychwyn achosion ASBO, adroddiadau i Wasanaeth Erlyn y Goron a chychwyn camau troseddol, cynnwys yr adran dai lleol (os yw'r troseddwr yn byw mewn tŷ awdurdod lleol) gyda'r bygythiad o'u taflu allan.

Yn olaf, ystyriodd y grŵp y gall fod ffyrdd mwy holistig a rhagweithiol i herio homoffobia a'i wreiddiau dros amser. Roedd hyn yn cynnwys argaeledd a chyfranogaeth cymodwyr cymunedol a gweithwyr ieuenctid i ymgysylltu gydag aelodau cymunedol a phobl ifanc mewn prosesau sy'n adfywiol ac yn addysgiadol yn hytrach nac ymatebol a chosbedigaethol.

Arweiniodd y diffyg cynrychiolaeth aml-asiantaethol o fewn y grŵp at drafodaeth a oedd, o bosib, yn adlewyrchu profiadau nifer o unigolion LHDT sydd wedi profi troseddau casineb homoffobaidd ond sydd, am ba bynnag reswm, heb wybod pa gamau sydd modd iddynt eu cymryd. Ymddangosai bod cyswllt gyda bobl LHDT eraill sydd wedi cael profiadau tebyg yn ffynhonnell werthfawr o gyngor a chefnogaeth mewn achosion o'r fath.

Bwrdd G Trish 3

Mae Trish ac Annie yn byw mewn tŷ cyngor yn Abertawe gyda 3 o blant Annie. Maent yn ganolbwynt camdriniaeth gan lanciau lleol, sy'n gweiddi lesbiad ayyb atynt. Un noson roeddent yn gwylio'r teledu, pan chwalwyd y ffenest gan garreg. Aeth Trish allan a gweld llanc yn ei gardd, mae'n

*gweiddi 'you f*****g lesbians' ac yn rhedeg i ffwrdd. Aeth Trish i gartref y llanc a chwyno wrth y fam, ac mae dadl, gyda'r fam yn ei galw'n lesbiad.*

Sylwadau'r Hwylusydd: Roedd y prif beth a ddysgom ynglŷn â chyswllt gyda'r heddlu, ond gallai hyn [y gweithdy] fod wedi rhoi argraff anghywir am ddefnyddioldeb, er enghraifft, cynigiodd yr heddlu: amddiffyniad rhag aflonyddu ar ôl i chi benderfynu mynd i'r llys, rhoi diwedd ar aflonyddu gan bobl leol, mynd â chi i'r llys i weld y lle, cadw llygad ar agor ar ddiwrnod yr achos llys ar gyfer gangiau o gyfeillion sy'n mynychu er mwyn bygwth y dioddefwr/tystion, a dywedwyd hefyd y gellid erlyn y fam yn ein stori, os oedd hi dros garreg drws ei thŷ.

Perswadiwyd y dioddefwr i wneud cwyn wrth yr heddlu pan ddywedwyd wrthi y byddai modd iddi gael cefnogaeth gan linell gymorth LHDT. Daeth awgrymiadau eraill gan ddarparwyr tai ee: cael gwaharddeb er mwyn cadw bobl bygythiol i ffwrdd o'ch cartref os ydynt yn parhau, offer diogelwch, CCTV, neu eu symud os ydynt yn denantiaid awdurdod lleol.

Bwrdd H Bob 4
*Roedd Bob yng nghlwb hoyw Way Out yng Nghaerdydd. Roedd gyda'i gyfaill, Pete, pan ddaeth dyn ato a'i alw'n 'p**f', 'f*****g queer' a geiriau sarhaus eraill. Cwynodd Bob a Pete am y dyn wrth aelod o staff y clwb a gofynnwyd i'r dyn adael. Ar ddiwedd y noson mae Bob yn gadael y clwb ar ei ben ei hun, ond pan mae'n mynd allan mae'r dyn a ymosododd yn eiriol arno yn ymosod yn gorfforol arno. Mae Bob yn cael ei daro i'r llawr a'i gicio. Mae'r heddlu'n cael eu galw ond mae'r dyn yn honni bod Bob wedi 'trio'i lwc' gydag ef. Mae Bob yn adnabod ei hun fel person hoyw ac mae ganddo warchodwyr cefnogol a fydd yn ei gefnogi yr holl ffordd.*

Sylwadau'r Hwylusydd: Roedd yr ymarfer hwn yn ddefnyddiol iawn wrth dynnu sylw at y bwlch rhwng gwahanol asiantaethau gwasanaethau cyhoeddus. Roedd yn amlwg bod unigolion yn teimlo eu bod yn cael eu dibrisio a'u tanseilio gan y system yn gyfan, hyd yn oed pan oedd cymorth yn cael ei ddarparu. Gellid dweud bod hyn yn sgil synnwyr cryf o gamwahaniaethu sefydliadol sy'n digwydd o ganlyniad i fethu gwahaniaethu rhwng anghenion dynion a menywod hoyw bregus ac anghenion grwpiau eraill. Roedd unigolion yn teimlo'n gyffredinol bod y system yn eu methu. Dyma'r achos gan amlaf lle nad oedd un unigolyn neu asiantaeth yn derbyn cyfrifoldeb dros y broses yn gyfan. Roedd hyn yn tanseilio'r lefel o hyder yr

oedd unigolion yn ei osod ar y gymuned gwasanaethau cyhoeddus, ac roedd yn adlewyrchu'n wael ar yr holl bartneriaid.

Bwrdd J Bob 2
*Roedd Bob mewn clwb nos adnabyddus am fod yn hoyw-gyfeillgar yn Aberystwyth. Roedd gyda'i gyfaill, Pete, pan ddaeth dyn ato a'i alw'n p**f, f*****g queer a geiriau sarhaus eraill. Llwyddodd Bob a Pete i symud i ran arall o'r clwb, ymhell oddi wrth y dyn. Ar ddiwedd y noson mae Bob yn gadael y clwb ar ei ben ei hun, ond pan mae tu allan, mae'r dyn a ymosododd arno yn eiriol yn ymosod arno yn gorfforol. Mae Bob yn cael ei daro i'r llawr a'i gicio. Mae Bob yn 21 ac yn adnabod ei hun fel person heterorywiol.*

Sylwadau'r Hwylusydd: Darparodd cyflwyniadau'r siaradwyr, y perfformiadau theatrig (am brofiadau gwirioneddol dioddefwyr troseddau casineb homoffobaidd), a'r sesiwn gweithdy a ddilynodd, gyfleoedd gwerthfawr i gynadleddwyr LHD i rannu eu barn ar, a'u profiadau personol o, droseddau casineb homoffobaidd, gyda'i gilydd a gyda'r amrywiol bobl broffesiynol a roddodd eu hamser a'u hegni yn frwdfrydig i weithgareddau'r dydd.
Fy argraff gyffredinol o'r dydd oedd bod awyrgylch anffurfiol, cyfeillgar y gynhadledd, ac yn arbennig y drafodaeth agored a gynhaliwyd yn y gweithdai, wedi sicrhau bod y cyfranogwyr yn gadael Canolfan Dylan Thomas gyda dealltwriaeth llawnach o'r her sy'n wynebu y dioddefwr a'r person proffesiynol na'r hyn oedd ganddynt cyn y gynhadledd.

Bwrdd K Bob 3
*Roedd Bob mewn clwb nos adnabyddus am fod yn hoyw-gyfeillgar yn Aberystwyth. Roedd gyda'i gyfaill, Pete, pan ddaeth dyn ato a'i alw'n 'p**f', 'f*****g queer' a geiriau sarhaus eraill. Llwyddodd Bob a Pete i symud i ran arall o'r clwb, ymhell oddi wrth y dyn. Ar ddiwedd y noson mae Bob yn gadael y clwb ar ei ben ei hun, ond pan mae tu allan, mae'r dyn a ymosododd arno yn eiriol yn ymosod arno yn gorfforol. Mae Bob yn cael ei daro i'r llawr a'i gicio. Mae Bob adnabod ei hun fel person hoyw, ond nid yw allan gyda'i deulu, ac mae'r swyddog o'r heddlu sy'n ymchwilio yn chwarae rygbi gyda thad Bob.*

Sylwadau'r Hwylusydd: Roedd hon yn sesiwn dda iawn ac rwy'n siŵr bod yr holl bobl broffesiynol wedi ymuno gydag ysbryd y digwyddiad a thaflu eu hunain i'r achos a'i broblemau posibl. Cysylltwyd gyda mi yn ddiweddarach

gan ddau ohonynt gan ddweud eu bod wedi dysgu llawer yn y digwyddiad. Fel y gallwch ddisgwyl roeddem yn aml yn crwydro oddi ar y testun gyda'n profiadau personol, lle'r oeddem yn cofio am ddigwyddiadau gydag elfennau cyffredin, ond roedd hyn yn gyfrwng i ddangos i'r bobl broffesiynol nad oedd yn ddigwyddiad mor ddychmygol a hynny. Roedd trin y digwyddiadau'n gywir, fel dywedodd y bobl cyfreithiol, hefyd yn cadarnhau'r angen i fod yn glir wrth wneud adroddiad a thrin achos.

Bwrdd L Bob 5
*Roedd Bob yng nghlwb hoyw Way Out yng Nghaerdydd. Roedd gyda'i gyfaill, Pete, pan ddaeth dyn ato a'i alw'n 'p**f', 'f*****g queer' a geiriau sarhaus eraill. Cwynodd Bob a Pete am y dyn wrth aelod o staff y clwb a gofynnwyd i'r dyn adael. Ar ddiwedd y noson mae Bob yn gadael y clwb ar ei ben ei hun, ond pan mae'n mynd allan mae'r dyn a ymosododd yn eiriol arno yn ymosod yn gorfforol arno. Mae Bob yn cael ei daro i'r llawr a'i gicio. Mae'r heddlu'n cael eu galw ond mae'r dyn yn honni bod Bob wedi 'trio'i lwc' gydag ef. Nid yw Bob allan gyda'i deulu.*

Sylwadau'r Hwylusydd: Gweithiodd yn dda iawn i gael cymysgedd o bobl o amgylch y bwrdd, ond nad oedd gennym berson o Wasanaeth Erlyn y Goron na Chymorth i Ddioddefwyr ar ein bwrdd. Serch hynny roedd cynrychiolwyr yr Heddlu yn ardderchog – yn llawer o gymorth ac hefyd yn onest iawn. Nid oeddent yn meddiannu'r drafodaeth, ac roedd yn teimlo fel sgwrs, a bod y ddwy ochr yn gwrando ar ei gilydd.

Yr neges gref oddi wrth y bobl LHD oedd yr angen am gymodwr rhwng y gymuned LHD ehangach (gyda hyder y dioddefwr) a fedrai weithredu fel "person canol" rhwng yr heddlu a'r dioddefwr. Teimlwyd bod hyn yn bwysig o leiaf yn y camau cynnar e.e. p'run ai i wneud cwyn neu beidio ayyb. Roedd yn ymddangos fel pe bai cefnogaeth i'r ffurflenni adrodd dienw hy. True Vision, ond bod pryder ynglŷn â gwybod ble'r oedd modd dod o hyd iddynt.

Y pwyntiau a ddysgwyd oedd bod rhai swyddogion heddlu wedi'u hyfforddi'n dda, sy'n cydymdeimlo, ond nad yw holl staff yr heddlu mor oleuedig ar faterion LHD. Mae angen i bobl LHD wybod gyda phwy i gysylltu er mwyn gwneud adroddiad am drosedd / digwyddiad. Hefyd, weithiau gall heddwas gael ei dynnu oddi wrth eich achos, gan roi eich papurau i swyddog gwahanol i barhau gyda'r achos. Nid yw hyn yn arfer da. I'r heddlu, y neges oedd yr angen am ddealltwriaeth o faterion LHD, a'r

angen i barchu'r angen am gyfrinachedd a bod yn ddienw. I'r gymuned LHD, y neges oedd bod rhaid i chi wneud cwyn am ddigwyddiadau homoffobaidd, neu ni fydd unrhyw beth yn cael ei wneud, a gall y sefyllfa waethygu.

Gweithdy a'r Canfyddiadau'r Sesiwn Llawn:

- Mae angen mwy o wybodaeth sydd mewn iaith hygyrch i bob oed: canllaw ar sut / ble i gael gwybodaeth, beth all / ddylid cael ei adrodd (ee: mae ymosodiad ar lafar yn drosedd) a'r gwahanol ffyrdd o adrodd, beth fydd yr heddlu yn ei wneud, beth fydd Gwasanaeth Erlyn y Goron yn ei wneud, beth all Cymorth i Ddioddefwyr ei wneud.
- Mae angen i'r 'dioddefwr' gael eglurhad clir os yw'r digwyddiad a brofwyd ganddynt yn cael ei weld gan y gyfraith fel digwyddiad neu drosedd, a'r opsiynau sydd ar gael yn sgil hynny.
- Mae person LHD sy'n ganolbwynt trosedd casineb homoffobaidd yn ei gartref angen cyngor a chefnogaeth leol er mwyn rhwystro cynydd ymosodiadau pellach. Mae angen cyngor ar yr opsiynau sydd ar gael iddynt ee: ymateb rhagweithiol gan yr heddlu, gwaharddebau, newid cloeon, trosglwyddo tai, CCTV ayyb
- Cynyddu argaeledd a chyfranogaeth hwyluswyr cymunedol a gweithwyr ieuenctid.
- Gall cyswllt gyda bobl LHDT eraill sydd wedi cael profiadau tebyg fod yn ffynhonnell cryf a gwerthfawr o gyngor a chefnogaeth i 'ddioddefwyr'.
- Mae angen gwaith i wynebu'r ymdeimlad cryf o gamwahaniaethu sefydliadol y mae nifer o bobl LHD yn ei deimlo, sy'n medru arwain at ddiffyg hyder yn yr asiantaethau sydd yno i'w cynorthwyo.
- Mae angen i asiantaethau gwasanaethau cyhoeddus gydweithio'n well gyda'i gilydd a gyda'r 'dioddefwr' er mwyn datblygu synnwyr cryfach o hyder a pherchnogaeth dros y gweithredu sy'n digwydd.

- Mae eglurdeb esboniad a dealltwriaeth a hyder yn y camau sy'n cael eu cymryd yn hanfodol.
- Yr angen am gymodwr o'r gymuned LHD ehangach (yr mae'r dioddefwr yn hyderus ynddo) a fedrai weithredu fel "canolwr" rhwng yr heddlu a'r dioddefwr, o leiaf yn y camau cyntaf ee: p'run ai i wneud cwyn ayyb.
- Dylai bobl LHD ddefnyddio ffurflenni hunan-adrodd os ydynt yn betrus o wneud adroddiad yn uniongyrchol i'r heddlu
- Mwy o ffurflenni hunan-adrodd (True Vision) ar gael a hysbysu bobl LHD ble mae modd dod o hyd iddynt.
- I'r heddlu: angen dealltwriaeth am faterion LHD, a'r angen i barchu cyfrinachedd a bod yn ddienw, angen mwy o hyfforddiant ar faterion LHD, mwy o gysylltiad a chyfathrebu gyda bobl LHD, hyrwyddo ymrwymiad yr heddlu i daclo troseddau casineb homoffobaidd.
- Nid yw'n arfer da i swyddogion heddlu i gael eu tynnu oddi ar achos ar ei hanner, ac i swyddog arall barhau gyda'r achos.
- I'r gymuned LHD: rhaid i chi gwyno am ddigwyddiadau homoffobaidd, neu ni fydd unrhyw beth yn digwydd, a gall y sefyllfa waethygu.

- Yr angen am Ganllaw i bobl LHD sy'n dioddef troseddau casineb homoffobaidd i gwmpasu:
  - y gwahaniaeth rhwng digwyddiad a throsedd, a'r ymateb yn ei sgil,
  - beth all / ddylai gael ei adrodd
  - sut / ble i gael cyngor a chefnogaeth cymheiriaid
  - ffyrdd o adrodd
  - beth fydd yr heddlu yn ei wneud
  - ble i gael cyngor ynglŷn â chamerâu CCTV ayyb
  - beth fydd Gwasanaeth Erlyn y Goron yn ei wneud
  - cyfyngiadau ar y wasg a nodweddion ychwanegol a dedfrydu
  - beth all Cymorth i Ddioddefwyr ei wneud, pryd mae modd iddynt weithredu
  - beth all Neighbourhood Watch ei wneud
  - beth fyddai'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn ei wneud o ran plant o deulu o'r un rhyw sy'n dioddef troseddau casineb homoffobaidd

ARGYMHELLION AR GYFER Y CAMAU NESAF

Heddlu

1. Sicrhau diogelwch a safon bywyd person lesbiaidd, hoyw neu ddeurywiol o fewn eu cymuned.

2. Gwella a chynyddu mynediad at ffurflenni hunan-adrodd.
3. Darparu esboniad clir i ddioddefwyr a yw'r digwyddiad a brofwyd ganddynt yn cael ei weld gan y gyfraith fel digwyddiad neu drosedd, a'r opsiynau sydd ar gael yn ei sgil.
4. Darparu canlyniad unrhyw ddigwyddiadau i'r dioddefwr.
5. Sicrhau bod yr holl ddioddefwyr yn deall y gwasanaethau y gall Cymorth i Ddioddefwyr ei ddarparu i bobl LHD.
6. Sicrhau bod y swyddog penodol sydd wedi derbyn yr achos yn cadw mewn cysylltiad gyda'r dioddefwr, er mwyn sicrhau cysylltiad cyson.
7. Y 4 llu heddlu i gynhyrchu ystadegau cyson o droseddau casineb homoffobaidd.
8. Gwaith partneriaeth i gynyddu graddfeydd adrodd: cyhuddo: erlyn ar gyfer troseddau casineb homoffobaidd.

Gwasanaeth Erlyn y Goron

1. Cynyddu gwybodaeth a dealltwriaeth o fewn y gymuned LHD o'r gwaith y mae Gwasanaeth Erlyn y Goron yn ei wneud a'r ffactorau sy'n penderfynu ar erlyniad.
2. Cynyddu gwybodaeth o fewn y gymuned LHD o'r dewis i ddefnyddio Adran 46 mewn rhai amgylchiadau er mwyn cyfyngu ar y wasg
3. Cynyddu gwybodaeth o fewn y gymuned LHD o'r pwerau dedfrydu cryfach sydd ar gael dan Adran 146 ar gyfer elfen homoffobaidd.
4. Gwaith partneriaeth er mwyn cynyddu cyfraddau adrodd: cyhuddo: erlyn ar gyfer troseddau casineb homoffobaidd.

Cymorth i Ddioddefwyr

1. Hyrwyddo'r gwasanaethau sy'n cael eu cynnig gan y Gwasanaeth Cymorth i Ddioddefwyr i bobl LHD.
2. Codi ymwybyddiaeth o anghenion a materion pobl LHD sy'n dioddef troseddau casineb homoffobaidd.
3. Recriwtio a hyfforddi pobl LHD i weithio gyda Cymorth i Ddioddefwyr.

Pobl LHD

1. Gwneud cwyn am bob digwyddiad homoffobaidd, neu ni fydd unrhyw beth yn digwydd a gall y sefyllfa waethygu.
2. Defnyddio ffurflenni hunan-adrodd os ydych yn gyndyn o adrodd yn uniongyrchol wrth yr heddlu.
3. Ymuno gyda grwpiau cyswllt LHDT eich heddlu lleol a hyfforddi ar faterion LHDT.
4. Wrth fynd i'r llys, mynnu bod yr heddlu yn cymryd datganiad y dioddefwr

5. Cymryd rhan gyda'r paneli dadansoddi Troseddau Casineb Gwasanaeth Erlyn y Goron, a fydd yn cynnwys darparu adolygiad beirniadol o astudiaethau achos.
6. Gwaith gwirfoddol gyda Cymorth i Ddioddefwyr fel person cyswllt LHDT ar gyfer dioddefwyr neu dystion troseddau casineb homoffobaidd.

Asiantaethau gwasanaethau cyhoeddus eraill

1. Hyrwyddo'r gwasanaethau sydd ar gael i ddioddefwyr troseddau casineb homoffobaidd er mwyn derbyn gwaharddebau, newid cloeon, trosglwyddo tai, CCTV ayyb fel bo angen.
2. Gwella cysylltiad rhwng asiantaethau Cyfiawnder Troseddol, er mwyn sicrhau nad yw achosion yn cael eu gollwng yn sgil diffyg hyder yn y system
3. Cynulliad Cymru i noddi casglu data am droseddau casineb homoffobaidd sy'n cynnwys bwlio homoffobaidd mewn ysgolion
4. Cynyddu argaeledd / cyfranogaeth cymodwyr cymunedol a gweithwyr ieuenctid
5. Datblygu mynediad at gysylltiadau LHD
6. Wynebu'r synnwyr cryf o gamwahaniaethu sefydliadol y mae nifer o bobl LHD yn ei deimlo
7. Angen i asiantaethau weithio'n well gyda'i gilydd a gyda'r 'dioddefwr'
8. Angen mwy o hyfforddiant ar faterion LHD, mwy o gysylltiad a chyfathrebu gyda'r gymuned LHD.

CAMAU NESAF STONEWALL CYMRU

1. Gosod Adroddiad y Gynhadledd ar wefan Stonewall Cymru
2. Parhau i weithio gyda phwyllgorau cyswllt LHDT yr heddlu ac unedau amrywiaeth 4 llu heddlu Cymru er mwyn cadarnhau'r dulliau casglu a chofnodi data traws-lluoedd newydd ar gyfer troseddau casineb homoffobaidd, a gosod targedau ar gyfer ystadegau cynyddu adroddiadau.
3. Gwaith partneriaeth i gynyddu ystadegau adroddiadau: cyhuddo: erlyn ar gyfer troseddau casineb homoffobaidd.
4. Cwrdd gyda Fforwm Rheolwyr Addysg Cymorth i Ddioddefwyr Cymru gyfan ac archwilio ffyrdd o ddatblygu cysylltiadau gyda'r gymuned LHD, a hyrwyddo'r gwasanaeth y mae Cymorth i Ddioddefwyr yn ei ddarparu.
5. Cefnogi gwaith cyswllt rhwng Cymorth i Ddioddefwyr a llinell gymorth LHDT Cymru er mwyn annog cyfranogaeth yn yr hyfforddiant sy'n cael ei gynnig gan Cymorth i Ddioddefwyr i aelodau o'r gymuned LHDT i weithredu fel cysylltiadau cymunedol.

6. Annog cysylltiad a chyfranogaeth pobl LHD mewn datblygiadau diogelwch cymunedol drwy naill ai'r Rhith Rhwydweithiau Rhanbarthol neu gyfranogi yn uniongyrchol gyda grwpiau cyswllt heddlu lleol, gwirfoddoli gyda Cymorth i Ddioddefwyr neu baneli astudiaeth trosedd casineb Gwasanaeth Erlyn y Goron.
7. Ysgogi gwaith partneriaeth er mwyn darparu Canllaw syml, hygyrch i bobl LHD o bob oed ar sut / ble i gael cefnogaeth, beth all / ddylai gael ei adrodd a sut / beth fydd yr heddlu yn ei wneud, beth fydd Gwasanaeth Erlyn y Goron yn ei wneud, beth all Cymorth i Ddioddefwyr ei wneud.
8. Dosbarthu'r canfyddiadau ynglŷn ag aflonyddu / troseddau casineb o arolwg Stonewall Cymru.